Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Beach House Fun Club**

**St Thomas's Church House**
**Russell House**
**Y Rhyl**
**LL18 3DA**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Beach House Fun Club

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Louise McCabe-Allen |
| Lleoedd cofrestredig | 48 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 01 Tachwedd 2023 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid yw themâu gofal a datblygiad, yr amgylchedd nac arweinyddiaeth a rheolaeth wedi'u hystyried yn fanwl.

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Caiff eu safbwyntiau a'u diddordebau eu gwerthfawrogi a gweithredir arnynt. Mae'r plant yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, maent yn creu cyfeillgarwch ac maent yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn gyson dda ac mae'r plant yn cydweithredu'n dda. Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn dangos diddordeb yn eu profiadau chwarae a dysgu. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol dan do ac yn yr awyr agored a gallant ddewis ymlacio a chael cyfnodau tawel. Maent yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud rhai pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus.

Mae'r staff yn rhoi gofal mewn ffordd gynnes a chyfeillgar. Mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i wella dealltwriaeth y staff o ran sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn trefnu profiadau chwarae a dysgu priodol i'r plant. Mae'r staff yn annog y plant i fod yn egnïol ac maent yn meithrin eu sgiliau corfforol yn dda dan do ac yn awyr agored wrth chwarae yn yr awyr iach.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi creu amgylchedd croesawgar. Maent wedi sicrhau bod y staff yn dilyn arferion glanhau gwell. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwella trefn a chynllun yr amgylchedd er mwyn sicrhau ei fod yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae a dysgu i'r plant. Mae'r adnoddau, y teganau a'r dodrefn yn addas ar gyfer ystod oedran y plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r lleoliad yn briodol ac yn ymrwymedig i wneud gwelliannau er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plant.

## Llesiant

Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i sbarduno eu chwarae eu hunain ac i ddylanwadu ar eu tasgau a'u profiadau gan fod cydbwysedd priodol o weithgareddau dan arweiniad y plentyn a gweithgareddau dan arweiniad yr oedolyn.

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus. Maent yn mwynhau cyflwyno eu hunain a dangos yr hyn y maent yn hoffi chwarae ag ef.  Er enghraifft, dangosodd plentyn ei waith paentio a dywedodd, '*look at my picture, the blue paint is the ship*' yn frwdfrydig. Dangosodd y plant eraill sut roeddent yn creu cadwyni papur i'w rhoi yn anrhegion i'w rhieni, gan ddefnyddio sisyrnau â min gwahanol i greu effeithiau ar y papur. Gofynnodd y plant am ragor o fara garlleg yn ystod amser cinio, ac ymatebodd y staff ar unwaith.

Mae'r plant yn setlo'n gyflym am eu bod yn cael eu cyfarch gan staff cyfeillgar. Maent yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol a gwnaethant ddangos sut maent yn torchi eu llewys cyn golchi eu dwylo a pharatoi i fynd allan i chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'u ffrindiau a gyda'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Maent yn mwynhau'r agwedd gymdeithasol ar amseroedd bwyd ac yn eistedd yn aeddfed wrth y bwrdd. Mae'r plant yn ymarfer defnyddio moesau da ac yn dysgu sut i rannu a chymryd eu tro. Maent yn dysgu am garedigrwydd. Er enghraifft, gofynnodd plentyn i'w ffrind estyn y darn o bapur porffor iddo, ac roedd yn hapus pan ymatebodd ei ffrind gan estyn y papur iddo. Maent yn mwynhau archwilio'r hambwrdd llawn darnau rhydd a chymerodd ffrindiau eu tro i dorri'r toes chwarae yn fân rhwng eu bysedd, gan ddweud ei fod yn edrych fel glaw. Mae'r plant yn cyd-dynnu'n dda yn ystod amser cinio i wisgo eu ffedogau eu hunain a chasglu eu cyllyll a'u ffyrc a'u diod o ddŵr gan y staff.

Mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig. Maent yn mwynhau chwarae yn y gornel gartref, gan ddatblygu eu dychymyg a meithrin eu sgiliau chwarae rôl yn effeithiol. Er enghraifft, roedd ffrindiau yn gofalu am y doliau a'r anifeiliaid meddal tra roedd y plant eraill yn paratoi pryd ffug gan ddefnyddio amrywiaeth o bropiau a nwyddau cartref wedi'u hailgylchu. Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau corfforol mewn ffordd gadarnhaol. Er enghraifft, yn ystod amser chwarae yn yr awyr agored, roedd y plant yn mwynhau mynd o amgylch yr iard ar eu beiciau a rhedeg o gwmpas yn yr awyr iach. Roedd y plant eraill yn mwynhau gwneud marciau gyda sialciau y mae'n hawdd dal gafael ynddynt ac yn siarad â'r staff am y môr-ladron roeddent yn tynnu llun ohonynt.

Mae'r plant yn chwarae ac yn darllen llyfrau ar eu pen eu hunain yn fodlon. Er enghraifft, canolbwyntiodd plentyn yn dda wrth archwilio'r bwrdd chwilfrydedd a defnyddiodd sgriwdreifer wedi'i bweru gan fatri i osod y sgriwiau yn soced y plwg. Ar ôl amser cinio, mae'r plant yn gwaredu eu gwastraff bwyd yn hyderus ac yn helpu i dacluso'r bwrdd. Maent yn golchi eu hwynebau'n ofalus gan ddefnyddio weip wyneb wrth edrych yn y drych. Mae'r

plant yn dysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol gan y staff.

## Gofal a Datblygiad

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn fanwl.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda. Maent yn gwerthfawrogi ymdrechion y plant ac yn dathlu eu cyflawniadau. Mae'r staff yn rhoi gofal mewn ffordd garedig a chynnes.

Mae'r staff wedi meithrin eu dealltwriaeth o'r polisïau a'r gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac maent yn eu rhoi ar waith yn briodol. Maent yn darparu byrbrydau a phrydau iach a gall y plant ddewis llaeth neu ddŵr i'w yfed. Mae'r staff yn annog y plant i olchi eu dwylo, ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn effeithiol. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol sy'n addas i ystod oedran y plant sy'n derbyn gofal. Mae'r gweithdrefnau newid cewynnau yn cydymffurfio â'r canllawiau rheoli heintiau cyfredol.

Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu ac mae'r staff wedi gwneud gwelliannau sylweddol o ran eu dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau i amddiffyn y plant a bodloni eu gofynion. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o ran sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ac maent yn hyderus i roi'r gweithdrefnau yn y polisi diogelu ar waith. Mae gan y staff ddealltwriaeth well o'r peryglon a nodwyd yn yr asesiadau risg ac maent yn eu dilyn yn briodol er mwyn sicrhau eu bod yn goruchwylio'r plant yn wyliadwrus bob amser.

Mae'r staff yn defnyddio system well i gofnodi presenoldeb dyddiol y plant fel rhan o'u harferion diogelu ehangach. Bellach, gallant nodi nifer y plant, yn unol â'u hoedran, sy'n bresennol. Mae'r staff yn cofnodi eu presenoldeb eu hunain yn gyson ac yn gywir. Maent yn cwblhau cofnodion electronig o ddamweiniau a digwyddiadau, ac mae'r rhain wedi'u cydnabod gan y rhieni / gofalwyr er mwyn dangos eu bod wedi cael gwybod amdanynt.

Mae'r staff yn trefnu amrywiaeth o brofiadau chwarae a dysgu er mwyn i'r plant feithrin eu sgiliau corfforol a chydsymud yn dda. Maent yn annog y plant i gael cyfleoedd i dreulio amser yn yr awyr agored.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn fanwl.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siŵr bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da, y tu mewn a'r tu allan. Mae'r amgylchedd yn galluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac i chwarae'n annibynnol. Mae'r amgylchedd yn groesawgar,

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sicrhau bod y staff yn defnyddio arferion glanhau gwell. Er enghraifft, caiff y llenni a'r deunyddiau, y matiau chwarae a lloriau'r toiledau eu cadw'n lân ac yn ffres. Mae gwybodaeth ar gael i bawb am sut mae angen iddynt ddelio ag argyfyngau. Mae gwiriadau iechyd a diogelwch wedi'u cynnal. Cyflwynodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad y dystysgrif gwresogi nwy gyfredol i ni. Maent yn sicrhau bod asesiadau risg yn nodi'n briodol y risgiau posibl i'r plant a'r mesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Mae'r rhain bellach yn cael eu dilyn yn gyson gan y staff er mwyn sicrhau diogelwch y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siŵr bod cynllun yr ardal chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant, gan eu galluogi i archwilio a gwneud eu dewisiadau eu hunain am yr eitemau y maent am chwarae â nhw yn ddirwystr. Mae'r ardaloedd chwarae yn fawr ac mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r ffordd y caiff teganau, adnoddau, cyfarpar ac ardaloedd dysgu eu trefnu. Mae hyn yn creu ardal chwarae mwy croesawgar er mwyn i'r plant feithrin eu sgiliau chwarae a dysgu. Caiff ardaloedd gorffwys eu cyflwyno mewn ffordd greadigol ac maent yn gwahodd plant i gael amser tawel i ddarllen llyfrau. Mae amrywiaeth o lyfrau ar gael ac mae'r rhain wedi'u cyflwyno'n ddeniadol i annog y plant i'w darllen.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod adnoddau wedi'u hailgylchu ac adnoddau cynaliadwy ar gael yn hwylus i'r plant er mwyn meithrin eu sgiliau synhwyraidd a'u chwilfrydedd ymhellach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ardal ddynodedig ar gyfer eitemau personol y plant, ac mae hyn yn creu ymdeimlad o berthyn. Maent yn cyflwyno gwaith celf y plant mewn ffordd ddeniadol ac mae hyn yn dangos i'r plant bod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn codi ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru drwy amrywiaeth o arddangosfeydd perthnasol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siwr bod yr ardal chwarae awyr agored yn drefnus ac yn cynnwys dewis o gyfarpar ac adnoddau er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau corfforol a chydsymud y plant. Maent wedi gwella'r ardd fach er mwyn i'r plant ddysgu am y byd naturiol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn fanwl.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gweithio'n galed i roi sylw i'r gofynion a'r safonau er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plant. Maent yn rheoli'r lleoliad yn briodol.

Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys y wybodaeth ofynnol ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar rieni / gofalwyr am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith, ac mae'r rhain yn cael eu diweddaru a'u hadolygu er mwyn cynnwys deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol Cymru. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gweithio'n galed gyda'r staff i wella dealltwriaeth pawb o'r gweithdrefnau diogelu. Maent wedi cynnal cyfarfodydd staff ac wedi llunio adnoddau a deunyddiau ychwanegol er mwyn cynyddu dealltwriaeth y staff o'r arferion diogelu. Mae'r person cofrestredig yn cyflwyno hysbysiadau i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) mewn modd amserol er mwyn rhoi gwybod i ni am unrhyw ddigwyddiadau o bwys yn y lleoliad. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth briodol o'u cyfrifoldeb i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Maent wedi ennill y wobr efydd am ymrwymo i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ac maent yn gweithio tuag at y wobr arian. Mae'r staff yn dechrau defnyddio geiriau Cymraeg sylfaenol yn ystod y sesiwn er mwyn datblygu defnydd a dealltwriaeth y plant o'r iaith.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y gwiriadau datgelu a gwahardd ar gyfer y staff yn gyfredol a bod yr hyfforddiant perthnasol diweddaraf wedi'i gwblhau. Maent wedi casglu'r wybodaeth ofynnol yn ffeil cyflogaeth y staff. Ers ein hymweliad diwethaf, dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau a'u bod yn fwy hyderus am y gweithdrefnau diogelu a rheoli heintiau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi coladu'r wybodaeth ofynnol yng nghofnodion unigol y plant er mwyn diwallu eu hanghenion unigol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r gymuned leol. Mae profiadau cadarnhaol o'r fath yn helpu'r plant i ymgyfarwyddo â'u hamgylchedd lleol ac i wella eu sgiliau cymdeithasol. Ni chawsom gyfle i siarad â'r rhieni.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 20 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau ei bod hi a phob aelod o'r staff yn gwybod am y prosesau diogelu ac yn gallu rhoi Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar waith i ddiogelu'r plant. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol wneud yn siŵr bod pob aelod o'r staff yn gwneud darpariaeth briodol i oruchwylio'r plant perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch y plant. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 30 | Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod system effeithiol ar waith i gofnodi presenoldeb dyddiol y plant a all nodi nifer y plant, yn unol â'u hoedran, sy'n bresennol yn y lleoliad. Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cofnodi ei bresenoldeb dyddiol yn gywir. Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod cofnod o gydnabyddiaeth y rhieni / gofalwyr sydd wedi cael gwybod am ddamweiniau a digwyddiadau ar gael. | Cyflawnwyd |
| 25 | Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn dilyn y Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau (2019) ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (0-5 blwydd) yng Nghymru (Meithrinfeydd, Gwarchod Plant a Grwpiau Chwarae) mewn perthynas â gweithdrefnau newid cewynnau. Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn deall yr asesiadau risg sydd ar waith a'u dilyn yn gyson er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. | Cyflawnwyd |
| 31 | Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau ei fod yn hysbysu AGC am ddigwyddiadau o bwys mewn perthynas â lles y plant mewn modd amserol drwy ddefnyddio porth AGC Ar-lein. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Datblygu hyder y staff er mwyn iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson drwy gydol y dydd er mwyn helpu i ddatblygu defnydd a dealltwriaeth y plant o'r iaith. |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/04/2024